

# CYSWLLT



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
MERTHYR TUDFUL  
MERTHYR TYDFIL  
County Borough Council

Papur Newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Haf 2025



**CWRDD Â'CH  
MAER  
NEWYDD AR  
GYFER 2025/2026**

Tudalen 2

**DATHLU  
DEUCANMLWYDD-  
IANT  
CYFARTHFA**

Tudalen 4

**PARHAU I  
ADNEWYDDU  
MEYSYDD  
CHWARAE**

Tudalen 6

## Penodi'r Cynghorydd Paula Layton yn Faer 2025/2026.

Etholwyd y Cynghorydd Paula Layton yn Faer Merthyr Tudful yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor, Ddydd Mercher 14 Mai 2025, gan gymryd yr awenau gan y Cyn-Faer, y Cynghorydd John Thomas, fel Dinesydd Cyntaf y Fwrdeistref Sirol.

"Mae'n golygu'r byd i mi fod yn Faer rhywle sydd â lle mor arbennig yn fy nghalon. Byddaf yn gwerthfawrogi'r rôl hon a'r cyfrifoldebau sy'n dod gyda hi ac yn gwneud fy ngorau i gynrychioli trigolion Merthyr Tudful."

Cydweddog Paula ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26 yw ei gŵr, Declan Sammon.

[merthyr.gov.uk/mayoral](https://merthyr.gov.uk/mayoral)

Os hoffech wahodd y Maer i ddigwyddiad, neu gyfrannu at apêl y Maer, cysylltwch â [mayoral@merthyr.gov.uk](mailto:mayoral@merthyr.gov.uk)

## Dewch i gwrdd â'n Cabinet newydd.

Ers mis Mai 2025, mae'r Cyngor wedi cael cynllun newydd ar gyfer Strwythur y Cabinet.



Brent Carter



David Jones



Anna Williams Price




Declan Sammon



Gareth Lewis



Jamie Scriven



Louise Minett Vokes

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae pob maes Cabinet yn ei gwmpasu, ewch i: [democracy.merthyr.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=160&LLL=0](https://democracy.merthyr.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=160&LLL=0)



Y Cyng  
Brent Carter  
Arweinydd y Cyngor

## Croeso i'ch rhifyn haf o Cyswllt.

Mae wedi bod yn ychydig fisoedd prysur ers y rhifyn diwethaf, gyda llawer o newidiadau yn digwydd.

Mae gennym Faer newydd ym Merthyr Tudful, y Cynghorydd Paula Layton, ac ers mis Mai mae gennym Gabinet newydd.

Ddydd Sadwrn, 28 Mehefin cynhaliwyd digwyddiad cyntaf erioed Gŵyl Redhouse – Gŵyl Day Fever – gan ddod â dros 2,000 o bobl i ganol y dref. Rydym yn gobeithio cynnal rhagor o'r digwyddiadau hyn yn y dyfodol!

Yn y rhifyn hwn gallwch ddarllen am rai prosiectau Adfywio cyffrous, gan gynnwys adleoli Marchnad Dan Do canol y dref, y Parc Sglefrio newydd ym Mhentref Hamdden Merthyr Tudful a'r cae 3G newydd anhygoel yn Ysgol Uwchradd Afon Taf (t3).

Hefyd, fe welwch rywfaint o wybodaeth am yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol sy'n dechrau ym mis Gorffennaf (t7) a'r Ymgynghoriad Cyllideb blyneddol (t8) yr ydym yn ei wneud ychydig yn wahanol eleni.

Os na allwch aros am y rhifyn nesaf am ddiweddariadau, hoffwch ni a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol, lle rwy'n gwneud diweddariad fideo wythnosol.



*B. Carter*

## Cae 3G newydd yn Ysgol Uwchradd Afon Tâf

Gwnaed y cyfleuster newydd £976K Ffit-ar gyfer-y Dyfodol yn bosibl, diolch i gyllid gan Sefydliad Pêl-droed Cymru, Cronfa



## Mae gwaith wedi dechrau ar barc sglefrïo newydd Merthyr Tudful!

Wedi'i leoli ym Mhentref Hamdden Merthyr Tudful, mae'r parc sydd wedi'i ddylunio'n arbenigol yn addo bod yn ganolfan ar gyfer egin sglefrfyrdswyr, beicwyr BMX a selogion sgwteri fel ei gilydd - gyda'i gyfleusterau arloesol yn llawer mwy na maint a chwmpas y parc blaenorol.

Cadwch lygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer dyddiad cwblhau!

Ffyniant a Rennir Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru.

Dywedodd y Cyngorydd Brent Carter, Arweinydd y Cyngor:

*"Dau o flaenoriaethau ein Cyngor yw gwella ein mannau hamdden a datblygu caeau chwaraeon allweddol.*

*"Mae datblygu 3G Afon Taf nid yn unig yn help i ddiwallu anghenion y gymuned leol ond mae hefyd yn gyfleuster conglfaen i'r hyn sydd bellach yn ddarpariaeth amlwyrpas gwych, sy'n gallu darparu ar gyfer ystod o chwaraeon a defnyddwyr fel ei gilydd."*



Y Cyngorwr Jamie Scriven  
Deilydd Portffolio yr Economi,  
Adnewyddu, Twristiaeth ac  
Hamdden



## Diweddariad ar Marchnad Dan Do Merthyr Tudful

Bydd Marchnad Dan Do Merthyr Tudful yn adleoli i lawr gwaelod hen adeilad Wilko yng Nghanolfan Siopa Santes Tudful.

Lluniwyd cynllun cysyniad cyffrous ar gyfer marchnad fwy amlweddol, fodern, gydag elfennau traddodiadol. Bydd y gofod hefyd yn cynnwys ardal synhwyrdd, ardal berfformio ar wahân a hyd yn oed Neuadd Fwyd.

Dywedodd y Cyngorydd Jamie Scriven: *"Rydym wedi rhannu'r cynlluniau hyn gyda'n tenantiaid presennol ac rydym bellach yn gweithio'n agos gyda phenseiri arbenigol i ddod â'r weledigaeth hon yn fyw. Ein nod yw cael y farchnad dan do newydd yn barod ac yn weithredol erbyn y Nadolig eleni."*

## DATHLU 1 FLWYDDYN

Ers i Hamdden Halo ymuno â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i greu cymunedau iachach

**EDRYCHWCH AR Y RHIFAU HYNNY!**

CYFANSWM Y CYFRANOGIAD AR  
DRAWS Y CANOLFANNAU

**220,000**

## Mae 2025 yn nodi pen-blwydd Castell Cyfarthfa yn 200 oed



Cynhelir gwahoddiad i  
You're invited to

# Penblwydd 200 Cyfarthfa

## Cyfarthfa's 200 Birthday

Gorffennaf 5-6, 10.00 - 16.00  
July 5-6, 10.00 - 16.00

Mynediad am Ddim  
Free Entry

Ymunwch â ni am / Join us for

|                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Marchnad artisan,<br/>Dweud straen,<br/>Llwybrau pryfed,<br/>Moss-Vernons Stiwdio<br/>portread Victorian,<br/>Gweithgareddau celf,<br/>Mynediad am ddim<br/>i'r Amgueddfa<br/>a llawer mwy!</p> | <p>Artisan market,<br/>Storytelling,<br/>Bug Trails,<br/>Moss-Vernons<br/>Victorian Portrait Studio,<br/>Craft activities,<br/>Free access<br/>to Museum<br/>&amp; lots more!</p> |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Hwyl i'r teulu  
cyfan

Fun for all the  
family

C200 Cyfarthfa

Sefydliad Cyfarthfa Foundation  
Funded by UK Government  
Visit to enhance your  
Llywodraeth y DU  
Croeso Merthyr  
Visit Merthyr

I ddathlu, mae cyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd cyffrous wedi'u cynllunio fel rhan o ddathliadau Cyfarthfa200.

Gallwch ddod o hyd i holl fanylion y digwyddiadau hyn yn [visitmerthyr.co.uk](http://visitmerthyr.co.uk)

Yn ogystal, mae BBC Cymru Wales wedi comisiynu casgliad o raglenni i ddathlu hanes, diwylliant a phobl Merthyr, a ddarledwyd yn gynharach ym mis Mehefin.

I gyd-fynd â'r ddaucanmlwyddiant, mae Penwythnos Pen-blwydd arbennig wedi'i gynllunio ar gyfer y **5ed a 6ed o Orffennaf**. Bydd hwn yn benwythnos o weithgareddau teuluol AM DDIM ar draws Parc a Chastell Cyfarthfa. Mae'n gyfle gwych i fwynhau ei erddi, llyn, ardal chwarae, a gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth, hamdden a dysgu.

Mae Cyfarthfa200 wedi'i gydlynw a'i gyflwyno gan Sefydliad Cyfarthfa, CBSMT ac wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.



Y Cyng Gareth Lewis  
Deilydd Portffolio Addysg,  
Diwylliant a'r Iaith Gymraeg

Am ragor o wybodaeth am Sefydliad Cyfarthfa ewch i: [cyfarthfafoundation.wales/cy](http://cyfarthfafoundation.wales/cy)

## Dathlwch yr Iaith Gymraeg yn Diwrnod Shwmae – dydd Sadwrn Hydref 18fed!

Ymunwch â ni am ddiwrnod gwych o hwyl, diwylliant a chymuned ar Sgwâr Penderyn ar gyfer Diwrnod Shwmae – dathliad bywiog o'r Iaith Gymraeg a phopeth sy'n ei gwneud hi'n arbennig. P'un ai os ydych chi'n siaradwr rhugl neu newydd ddechrau gyda'ch 'Shwmae' cyntaf, mae'r digwyddiad hwn yn croesawu pawb â breichiau agored.

Dewch draw, dewch â'ch ffrindiau a'ch teulu, a dywedwch 'Shwmae' gyda balchder!



### Mae gwisg ysgol mewn cyflwr da...



Ar gael i'w casglu **am ddim** o:  
Siop Bywyd Newydd, yn ystod pob gwyliau ysgol.

**Bywyd Newydd**  
A New Lease of Life

Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr Tudful,  
Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4DR

Derbynnir rhoddion o  
wisgoedd ysgol mewn cyflwr da.

Merthyr Tudful yn ailgylchu  
Merthyr Tydfil recycles

### ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES

Gwiriwch a allai eich plentyn gael  
**Cinio Ysgol Am Ddim** a hyd at  
**£200** ar gyfer **Hanfodion Ysgol**.



### Gwneud i bob dydd gyfri

### Make every day count



#CollwchYsgolCollwchAllan  
#MissSchoolMissOut

## Foster with your local authority

There are children in Merthyr who need a foster home. A safe place, a place to learn, and a place to laugh. A place to be loved.

## Maethu gyda'ch awdurdod lleol

Mae yna blant ym Merthyr angen cartref maeth. Lle diogel, lle i ddysgu, a lle i chwervthin. Lle llawn cariad.

**maethu cymru**  
Merthyr Tudful

**foster wales**  
Merthyr Tydfil



beth allwch chi ei gynnig?  
what will you bring to the table?

Ar hyn o bryd mae gennym 83 o blant a phobl ifanc mewn gofal maeth ym Merthyr Tudful; ac mae angen mwy o ofalwyr maeth arnom i sicrhau bod ein holl blant yn cael y gofal a'r cymorth y maent yn eu haeddu.

Ym mis Ionawr lansiodd y rhwy-dwaith cenedlaethol o 22 o dimau maethu awdurdodau lleol Cymru, Maethu Cymru, ymgrych i recriwtio 800 o deuluoedd maeth ychwanegol erbyn 2026.

01443 425007

[merthyrtudful.maethucymru.llyw.cymru](http://merthyrtudful.maethucymru.llyw.cymru)  
[merthyrtydfil.fosterwales.gov.wales](http://merthyrtydfil.fosterwales.gov.wales)



Y Cyng Louise Minett-Vokes  
Deilydd Portffolio Gofal  
Cymdeithasol, Iechyd a  
Chyfranogiad yr Ifanc



Ym mis Ebrill 2024, dechreuodd Ty Peiriant Dowlais y broses o wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel darparwr chwarae mynediad agored.

Mae cofrestru chwarae yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, bod y lleoliad yn gweithredu i safon uchel, a bod y staff yn gymwys i ofalu am blant a phobl ifanc a'u cefnogi.

Cefnogodd y Cyngor, mewn partneriaeth â Chymryd Rhan, y lleoliad gyda'u cais. Trwy hyfforddi staff mewn Gwaith Chwarae, adolygu polisïau a gweithdrefnau, a newidiadau i'r adeilad, cyflawnodd y sefydliad yr holl ofynion cofrestru ac ym mis Mai 2025, daethant yn Ddarparwr Chwarae Mynediad Agored Cofrestredig AGC cyntaf ym Merthyr Tudful.



Partneriaeth Gofalwyr Di-dâl  
**MERTHYR TUDFUL**



**MERTHYR TYDFIL**  
Unpaid Carers Partnership

Ydych chi'n darparu gofal a chymorth i rywun sy'n sâl, yn hŷn, sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu sydd ag anabledd ac nad ydych yn cael eich talu i wneud hynny? Gall fod yn ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog.

Hoffech chi gael cymorth, gwybodaeth neu gyngor? Gallai ein Partneriaeth Gofalwyr Di-dâl Merthyr Tudful helpu!

Cysylltwch â Chydlynwyr Cymorth i Ofalwyr Merthyr Tudful:

**Caitlin Matthews – 07762408368**

**Caroline Lamont – 07561601917**

Neu galwch i mewn i Hyb Canol y Dref i'n gweld.

## Rhaglen Adnewyddu Meysydd Chwarae yn Parhau.

Mae'r Cyngor yn rheoli 51 o ardaloedd chwarae sefydlog, ledled Merthyr Tudful ac mae llawer ohonynt yn dirwyn i ben eu hoes ac angen eu hadnewyddu.

Yn 2022, ymrwymodd y Cyngor wariant cyfalaf o £518K dros 5 mlynedd.

Hyd yn hyn, mae'r rhaglen ariannu wedi caniatáu i'r Cyngor gwblhau'r gwaith adnewyddu ar 14 ardal chwarae.

Yn 2025, adnewyddwyd 4 ardal chwarae arall;  
**Mae Parc y Mileniwm (Taf Bargoed), Teras Haydn, Stryd Clare ac Abercanaid wedi'u cwblhau.**



**Y Cyng David Jones**  
Dirprwy Arweinydd ac  
Deilydd Portffolio Cymunedau  
a Newid Hinsawdd

[merthyr.gov.uk/news-and-events/?lang=cy-GB&](http://merthyr.gov.uk/news-and-events/?lang=cy-GB&)



Abercanaid



Stryd Clare



Teras Haydn



Parc Taf Bargoed

## EICH AILGYLCHU A BETH DDIGWYDDODD IDDO... yn 2023/24

Merthyr Tudful yn ailgylchu  
Merthyr Tydfil recycles



Ailgylchwyd  
**64% o wastraff.**



Ailgylchwyd **16,000**  
**tunnell o wastraff.**



**Arbedwyd £2m trwy**  
**ailgylchu yn lle gwaredu.**



Osgowyd **8,000 tonn**  
**o allyriadau CO2.**

Yn 2023/24, dangosodd trigolion ymrwymiad cryf i'r amgylchedd drwy ailgylchu 64% o'u gwastraff.

Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ac effeithiolrwydd cynlluniau ailgylchu lleol. Mae pob eitem sydd yn cael eu didoli a'u hailgylchu yn chwarae rôl hanfodol i leihau llygredd, cynnal adnoddau a diogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda tharged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyfradd ailgylchu o 70% yn 2024/25, mae Merthyr Tudful yn gwneud cynnydd cadarn. Ar 64% rydym ar ein ffordd – ond ymdrech barhaus gan bawb fydd yr allwedd i gyrraedd y nod uchelgeisiol a phwysig hwn. **Daliwch ati â'r gwaith gwyh!**

## Fe wnaethoch chi ailgylchu...

|                       |             |              |                |                          |                  |                        |                                       |
|-----------------------|-------------|--------------|----------------|--------------------------|------------------|------------------------|---------------------------------------|
|                       |             |              |                |                          |                  |                        |                                       |
| <b>Gwastraff bwyd</b> | <b>Gwyr</b> | <b>Metel</b> | <b>Plastig</b> | <b>Cardbord a phapur</b> | <b>Teustilau</b> | <b>Gwastraff gardd</b> | <b>Deunyddiau ailgylchadwy eraill</b> |
| 2,574 tonn            | 1,212 tonn  | 1,373 tonn   | 1,036 tonn     | 2,644 tonn               | 224 tonn         | 1,575 tonn             | Popeth arall                          |

## Cynlluniau Adfer Stormydd: Hyb ar y wefan

Am y diweddariadau diweddaraf, taflenni gwybodaeth ar gyfer preswylwyr, Cwestiynau Cyffredin a mwy, ewch i'n Hyb Adfer y Storm i gael gwybod am y cynlluniau llifogydd sydd ar waith yn y fwrdeistref:

[merthyr.gov.uk/resident/storm-recovery-schemes](http://merthyr.gov.uk/resident/storm-recovery-schemes)





**Y Cyng Declan Sammon**  
Deilydd Portffolio Trawsnewid,  
Llywodraethiant a  
Phartneriaeth Gymdeithasol


## Dweud eich dweud gyda'n Arolwg Preswylwyr!

Rydym am glywed gennych am fyw ym Merthyr Tudful, gan gynnwys eich profiadau o'ch ardal leol, eich barn ar wasanaethau'r cyngor – fel addysg, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth ac ailgylchu – a sut y gallwn wella pethau i wneud Merthyr Tudful yn lle gwell fyth i fyw.



Bydd yr arolwg ar agor rhwng **1 Gorffennaf a 30 Medi 2025**.

[surveys.data.cymru/s/542ArolwgPreswylwyr\\_ResidentSurvey](https://surveys.data.cymru/s/542ArolwgPreswylwyr_ResidentSurvey)



Mae trigolion Merthyr Tudful yn cael eu hannog i roi gwybod am gerbydau oddi ar y ffordd mewn ymgais i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful a Chartrefi Cwm Merthyr i godi ymwybyddiaeth a gofyn am gefnogaeth gan aelodau'r gymuned i rannu cudd-wybodaeth.

Os gwelwch gerbyd oddi ar y ffordd anghyfreithlon, gallwch ei riportio i'r heddlu drwy ffonio 101, lle bo hynny'n bosibl gan roi disgrifiad o'r cerbyd a'r person sy'n gyrru (er enghraifft, ei ddillad, lliw yr helmed ac ati)

Gallwch hefyd wneud hyn yn ddiennw trwy Crimestoppers drwy ffonio 0800 555 111 neu drwy wefan Crimestoppers.


## Lansio Rhaglen Trawsnewid

Dywedodd y Cyngorydd Declan Sammon; "Fel yr Aelod Cabinet a benodwyd yn ddiweddar dros Drawsnewid, Llywodraethu a Phartneriaeth Gymdeithasol, rwy'n falch ac yn gyffrous i fod yn gweithio'n agos gyda fy nghyd-aelodau yn y Cabinet a Swyddogion y Cyngor wrth i ni ymdrechu i ddod yn gyngor sy'n barod ar gyfer yfory.

"Mae hwn yn foment dyngedfennol i ni ganolbwyntio ar ddyfodol sy'n ymatebol, yn gynhwysol, ac wedi'i adeiladu ar gryfderau'r rhai sy'n cyfrannu ato bob dydd. I wneud hyn, rydym wedi ymgysylltu â 'Partneriaethau Lleol', a fydd yn ein helpu i nodi a datblygu meysydd i'n galluogi i drawsnewid.

"Cadwch lygad ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol i ddilyn ein taith dros y misoedd nesaf."





## Dweud Eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Cwblhewch ein harolygon a'n hymgyngghoriadau drwy ymweld â:  
[merthyr.gov.uk/DweudEichDweud](http://merthyr.gov.uk/DweudEichDweud)



Y Cyngwrwr Anna Williams-Price  
Deilydd Portffolio  
Cynaliadwyedd Ariannol,  
Asedau a Masnachol



## Ymgynghoriad Cyllideb Blynnyddol

Eleni, byddwn yn gwneud ein hymgyngghoriad cyllideb mewn dau gam.

Yng ngham un (Awst/Medi) byddwn yn gofyn i chi flaenoriaethu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi, gyda chwestiwn ar osod y Dreth Gyngor.

Yng ngham dau (Tachwedd/Rhagfyr), yn seiliedig ar eich ymateb i gam un, byddwn yn cyflwyno'n cynigion arbed costau i chi ddweud eich dweud arnynt.

Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan yn ystod y misoedd nesaf. Ewch i [merthyr.gov.uk/haveyoursay](http://merthyr.gov.uk/haveyoursay) am wybodaeth.

Bydd copïau papur ar gael yn adeiladau'r Cyngor.



## Panel Dinasyddion Citizens' Panel

Ymuno â'n Panel Dinasyddion i chwarae rhan wrth wellabywydau'r rhai sy'n byw yn ein Bwrdeistref Sirol.

[merthyr.gov.uk/CitizensPanel](http://merthyr.gov.uk/CitizensPanel)



# CYMRYD RHAN

## GYDA'CH CYNGOR LLEOL

Wyddech chi, gallwch ofyn cwestiwn, ychwanegu eitem at flaengynllun gwaith, neu fynychu cyfarfod cyhoeddus yn bersonol?

I ddarganfod mwy, ewch i:

[merthyr.gov.uk](http://merthyr.gov.uk)

[www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say/the-councils-participation-strategy/?lang=cy-GB&](http://www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say/the-councils-participation-strategy/?lang=cy-GB&)

